COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 21 TACHWEDD 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd D Patel – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | HJ David | J Gebbie | DG Howells |
| JE Lewis | CE Smith | E Venables | PJ White |
| HM Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cyng H David, JC Radcliffe

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Judith Jones | Partnership Co-ordinator |
| Michael Pitman | Prentis Gweinyddu Busnes |

59. DATGAN BUDDIANT

Dim

60. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfodydd dyddiedig 26/03/2019 a 04/07/2019 yn gywir.

61. Y DIWEDDARAF AM YR AROLWG CYDLYNIANT CYMUNEDOL A RÔL Y SWYDDOG CYDLYNIANT CYMUNEDOL O FEWN CBSPO.

Cyflwynodd y Cydgysylltydd Partneriaethau adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb am yr Arolwg Cydlyniant Cymunedol, a rôl y Swyddog Cydlyniant Cymunedol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO).

Esboniodd fod Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2018, yn anfon ei e-bost 'bwriad i ariannu' at holl Gydgysylltwyr Cymunedol Rhanbarthol Cymru. Nodwyd y byddai £140,000 yn cael ei ddyrannu i bob rhanbarth gan anelu i:

- Nodi a lliniaru tensiynau cymunedol (troseddau casineb, eithafiaeth, pryder, ymddygiad gwrthgymdeithasol) sy'n ymwneud â Brexit;
- Gwella cyfathrebu cydlyniant cymunedol;
- Trefnu digwyddiadau / gweithgareddau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol; a
- Chyflwyno gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â Brexit fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol (2019).

Dywedodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod Cynllun Cyflawni Cydlyniad Cymunedol Brexit wedi cael ei ddatblygu yn rhan o'r cais cyllido. Roedd manylion y cynllun wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dywedodd mai un o brif amcanion y cynllun oedd datblygu ymarfer mapio er mwyn cael dealltwriaeth well o effeithiau Brexit ar gymunedau. Ymatebodd cyfanswm o 183 o bobl i'r arolwg, ac mae copi o'r adroddiad i'w gael yn atodiad 2. Rhestrir crynodeb o'r

ymatebion yn adran 4.7 yr adroddiad. Ychwanegodd mai anwladolion yr UE oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gyda chyfranogiad o 2% ymhlith gwladolion yr UE. Roedd hynny'n destun siom, oherwydd gobeithiwyd cael mwy o ymatebion gan Wladolion yr UE. Ychwanegodd fod system monitro tensiwn wedi cael ei chynnal i ddarparu'r ffigurau ar gyfer troseddau casineb.

Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod system monitro tensiynau wedi cael ei chynnal a oedd yn darparu'r ffigurau troseddau casineb ar gyfer mis Ebrill i Fehefin a mis Mehefin i Awst 2019, ac yn eu cymharu â 2018. Rhestrwyd y manylion isod:

Dyma'r ffigurau troseddau casineb ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2019:-
- CBSPO = 23 o droseddau casineb
- Hiliol - 10
- Anabledd - 4
- Cyfeiriadedd rhywiol - 10
- Trawsryweddol - 0

O gymharu â'r un cyfnod y llynedd (Ebrill i Fehefin 2018)
- CBSPO = 18 o droseddau casineb
- Hiliol - 13
- Crefydd - 1
- Anabledd - 2
- Cyfeiriadedd rhywiol - 2

Ffigurau troseddau casineb Mehefin i Awst 2019-
- CYFANSWM = 34 o droseddau casineb
- Hiliol - 26
- Crefydd - 2
- Anabledd - 5
- Cyfeiriadedd rhywiol - 3
- Trawsryweddol - 0

O gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn gynt (Mehefin i Awst 2019)
- CYFANSWM = 34 o droseddau casineb
- Hiliol - 19
- Crefydd - 2
- Anabledd - 5
- Cyfeiriadedd rhywiol - 7
- Trawsryweddol - 1

Dywedodd y Cydgysylltydd Partneriaethau, er na chafwyd ymchwydd mewn ffigurau, y cafwyd cynnydd bach iddynt o gymharu â'r un adeg y flwyddyn gynt.

Credai'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio fod ei bod hi'n ddigon posibl bod y cynnydd mewn troseddau casineb yn deillio o Brexit a'r tensiynau'n gysylltiedig â hynny, ac y gallai llawer o'r achosion hynny fod wedi'u tanadrodd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mynegodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol ei phryder ynghylch diffyg canlyniadau'r arolwg, gan nad oedd digon o ddata o ddigon o ardaloedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a bod mwyafrif y canlyniadau'n ymddangos fel pe baent o ardal Pen y Fai.

Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod y data lleol yn brin iawn i ddibenion dadansoddi, a chan na nodwyd unrhyw brif ardaloedd problemus, roedd hi'n anodd cyfeirio'n benodol at unrhyw ardaloedd neilltuol a oedd yn destun pryder. Nododd y bu cynnydd bach mewn Ysgolion, yn enwedig Ysgol Gyfun Maesteg ac Ysgol Gyfun Brynteg.

Dywedodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod Swyddog Cydlyniant Cymunedol bellach wedi'i benodi a oedd ar hyn o bryd yn gweithio ar Gynllun Setliad yr UE, ar y cyd â'r Ganolfan Waith.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn cael ei weld yn y gymuned, wyneb yn wyneb. Cadarnhaodd y Cydgysylltydd Partneriaethau y byddai hynny'n digwydd.

Dywedodd y byddai'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol hefyd yn gweithio gyda theuluoedd i gynyddu eu gwybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael i Wladolion yr UE. Roedd hi'n cwrdd â chynrychiolydd o Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i'n helpu i adnabod ac ymdrin â throseddau casineb yn yr ardal.

Esboniodd yr Aelod Cabinet Cymunedau ei fod wedi bod i gynhadledd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ddiweddar yn Warwick, lle cyflwynwyd ffigurau yn dangos sut yr ystyriwyd bod Brexit wedi effeithio ar droseddau casineb. Dywedodd fod De Cymru yn is na'r cyfartaledd o gymharu ag ardaloedd eraill, ac y bu cynnydd sydyn yn ystod y refferendwm, ond bod y ffigurau wedi gostwng ers hynny. Beth bynnag fydd yn digwydd yn achos Brexit, ond yn enwedig os bydd y DU yn aros yn yr UE, mae'r Heddlu wedi nodi y ceir cynnydd cyflym mewn troseddau casineb.

Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau y byddai'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn gwneud gwaith yn y cymunedau, gan gynnwys mwy o ymglymiad ag ysgolion ac eglwysi ac ati i weld a allant gael mwy o wybodaeth. Esboniodd fod pobl yn aml yn amharod i ateb, o sôn am Brexit, a bod hynny'n rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol.

Diolchodd Aelod i'r Cydgysylltydd Partneriaethau am yr adroddiad a dywedodd fod llawer o'r Aelodau wedi gweld enghreifftiau o droseddau casineb yn gysylltiedig â Brexit. Dywedodd ei fod yn pryderu ynghylch y cynnydd mewn ysgolion, a gofynnodd beth oedd y ffurf fwyaf cyffredin ar droseddau casineb.

Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod natur y troseddau casineb yn amrywio, ac nad oeddent wedi'u cyfyngu i un math arbennig o drosedd. Ychwanegodd hefyd y gallai troseddau casineb godi rhwng disgyblion Saesneg a Chymraeg eu hiaith hefyd.

Soniodd aelod fod troseddau casineb wedi cynyddu ym Maesteg a Brynteg, ond roedd yn pryderu bod problemau i'w cael mewn ysgolion eraill nad oeddent, o bosib, wedi cael eu riportio. Gofynnodd sut y byddai modd edrych ar hyn.

Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pum ysgol wahanol. Bydd cymysgedd o ysgolion yn cael eu targedu i sicrhau bod cwmpas y gwaith a gyflawnir yn ddigon eang.

Soniodd Aelod fod llawer o droseddau casineb yn cael eu riportio ar-lein a gofynnodd beth ellid ei wneud i sicrhau ein bod yn cael data o'r cyfryngau cymdeithasol ac ati. Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod gan yr heddlu feddalwedd y maen nhw'n ei defnyddio i nodi problemau ar-lein.

Dywedodd Aelod fod apiau'r cyfryngau cymdeithasol yn dangos cynnydd mewn troseddau casineb, gan gynnwys troseddau wedi'u targedu'n wleidyddol yn ardal Maesteg. Gofynnodd i'r Cydgysylltydd Partneriaethau a oedd ganddi unrhyw ffigurau ar gyfer y digwyddiadau a riportiwyd. Dywedodd y Cydgysylltydd Partneriaethau nad oedd ganddi'r ffigurau hynny wrth law, ond y gallai ymchwilio i hynny.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol gwestiwn ar ran Aelod, sef am ba mor hir y byddai'r cyllid yn cael ei ddarparu.

Esboniodd y Cydgysylltydd Partneriaethau fod y cyllid ar gyfer Swyddog rhan-amser. Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol bellach yn amser llawn hyd fis Ebrill 2021, ond bydd y cyllid yn darfod ar ôl y dyddiad hwn, ac nid oes darpariaeth ar hyn o bryd er mwyn i'r cyllid barhau. Mae'r tîm, fodd bynnag, yn ystyried sicrhau mwy o gyllid.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd ei fod wedi gweld sylwadau annymunol am bobl ar-lein, a gofynnodd sut y byddai Cynghorwyr yn mynd ati i adrodd am yr ymddygiad hwn.

Dywedodd y Cydgysylltydd Partneriaethau y gallai ddarparu manylion cyswllt y Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn ogystal â'n swyddog rhanbarthol.

Awgrymodd y Dirprwy Arweinydd y dylid darparu'r manylion hyn i'r cyhoedd er mwyn iddynt hwythau allu adrodd am ymddygiad negyddol y byddent yn dod ar ei draws.

Soniodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai mwy o waith i hyrwyddo tudalen y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar wefan CBSPO yn fuddiol i'r Aelodau ac i'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn nodi ac yn derbyn cynnwys yr adroddiad.

62. ADRODDIAD DIWEDDARU AR WEITHREDU MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 A SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ynghylch gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Esboniodd fod y polisi Cymraeg yn y Gwaith wedi cael ei ddiweddaru ac ar gael i'r staff drwy'r Fewnrwyd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y strategaeth 5 mlynedd a'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu i gwsmeriaid a chyflogeion.

Ychwanegodd eu bod wedi cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg ar 30 Hydref ac wedi derbyn gwybodaeth yn gysylltiedig â'u perfformiad. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan o ran gohebiaeth, cynnwys y cyfryngau cymdeithasol, polisïau a gwefan CBSPO. O ran galwadau ffôn, roedd opsiynau iaith awtomatig ar gael ym mhob un o'r tair galwad, ond nid oedd modd ateb unrhyw un o'r galwadau hyn yn llawn drwy ddefnyddio'r Gymraeg. Ychwanegodd eu bod yn dal i ddisgwyl am god ymarfer Comisiynydd y Gymraeg i roi cyfarwyddyd ychwanegol ar ddehongli Safonau'r Gymraeg. Gobeithir y bydd y rhain yn cael eu darparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydraddoldeb.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fanylion yn gysylltiedig â'r gŵyn a gafwyd ym mis Gorffennaf 2019 lle honnwyd bod llythyr Saesneg yn unig wedi'i dderbyn yn Ysgol Gynradd Bro Ogwr ynghylch gwersi beicio. Daeth Comisiynydd y Gymraeg â'r gŵyn i ben gan nad oedd yn 'gwrs addysg' a'i bod yn fodlon mai gwall dynol oedd wrth wraidd yr achos.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fanylion cwyn a gafwyd ym mis Mawrth 2019. Honnodd yr achwynydd nad oedd wedi derbyn ymateb llawn i ohebiaeth Gymraeg a anfonwyd i gyfeiriad e-bost Talktous. Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod cwynion eisoes wedi dod i law ynghylch hyn, felly penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg beidio mynd ar drywydd y gŵyn neilltuol hon gan fod y cwynion blaenorol yn destun ymchwiliad.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fanylion cwyn a gafwyd ym mis Hydref 2019. Roedd yr achwynydd wedi derbyn ymateb awtomatig i e-bost a oedd yn cydnabod bod taliad y Dreth Gyngor wedi'i dderbyn. Yn ôl yr achwynydd roedd y Gymraeg yn yr e-bost yn wallus.
Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb eu bod wedi darparu tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch hyn, gan mai dyma oedd yr ail gŵyn a gafwyd o natur debyg.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor Cydraddoldeb am y cwynion blaenorol a gafwyd. Roedd y rhain, a'r cynnydd yn gysylltiedig â hwy, wedi'u nodi yn adran 4.1.6 yr adroddiad.

Gofynnodd Aelod i ba raddau yr ydym wedi datblygu yn nhermau cydymffurfiaeth gyffredinol wrth weithredu'n Gymraeg.

Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb mai'r unig feysydd lle nad oeddem wedi sicrhau cydymffurfiaeth lawn eto oedd peiriannau hunanwasanaeth, er enghraifft, nid oedd peiriannau talu meysydd parcio yn rhoi'r dewis i weld cyfarwyddiadau yn Gymraeg eto.

Mewn perthynas â'r gŵyn am yr e-bost a anfonwyd allan, gofynnodd Aelod a oedd y broblem hon wedi'i datrys, neu beth oedd y sefyllfa bresennol yn gysylltiedig â hynny.

Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb na lwyddwyd i gael hyd i'r gwall dan sylw, felly gofynnwyd am eglurhad gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch lleoliad y gwall, ac rydym yn dal i ddisgwyl ymateb.

Gofynnodd Aelod a oedd yr achwynwyr wedi cysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor i ddechrau.
Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb nad oedd cwynion yn cael eu hanfon i'r Cyngor gan amlaf, ond yn hytrach yn cael eu hanfon yn syth at Gomisiynydd y Gymraeg.

Dywedodd Aelod ei bod hi'n syndod bod y Cyngor wedi llwyddo i gyflawni cymaint a gweithredu cynifer o safonau o fewn cyfnod mor fyr.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad.

63. ADRODDIAD DIWEDDARU BLYNYDDOL AR Y CYNNYDD A WNAED O RAN CYFLAWNI'R AMCANION YN Y STRATEGAETH PUM MLYNEDD AR GYFER SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ynghylch y gwaith a gyflawnwyd i fodloni amcanion Strategaeth Pum Mlynedd Safonau'r Gymraeg (2016-2021) yn ystod y drydedd flwyddyn ers cyflwyno'r Strategaeth honno.

Esboniodd fod rhybudd cydymffurfio terfynol y Cyngor oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg yn cynnwys dwy safon (145 a 146) a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Pum Mlynedd erbyn 30 Medi 2016. Roedd y strategaeth wedi'i hatodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod y strategaeth wedi'i rhannu'n ddwy adran, y naill i gyflogeion a'r llall i'r cyhoedd. Roedd manylion y rhain a'r cynnydd a wnaed ers 2018 wedi'u rhestru isod.

**Datblygiadau o ran cyflogeion**

**Nodi'r gallu mewn meysydd gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg**

- Mae offeryn asesu'r Gymraeg a ddatblygwyd i gynorthwyo rheolwyr i ddeall sgiliau ieithyddol eu timau fel bo modd targedu hyfforddiant yn y dyfodol yn well, wedi cael ei roi ar waith yng ngwasanaethau cwsmeriaid Gofal Dydd Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae camau wedi cael eu cymryd i fonitro'r galw am wasanaethau Cymraeg yn y ganolfan gyswllt ffôn a'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid.

**Darparu datrysiadau dysgu a datblygu priodol ar amryw o lefelau er mwyn bodloni'r angen a nodir o fewn y gyllideb a ddyrennir.**

- Mae 18 o gyflogeion wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Safonau'r Gymraeg a 32 wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Mae 10 o gyflogeion wedi cofrestru ar Gwrs Mynediad blwyddyn 1, 7 wedi cofrestru ar flwyddyn 2 ac 8 wedi cofrestru ar y flwyddyn lefel sylfaen.
- Mae 21 o gyflogeion wedi mynychu hyfforddiant cwrdd a chyfarch Cymraeg

**Gwneud trefniadau i recriwtio i swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol**

- Mae'r system recriwtio ar-lein ar gael yn ddwyieithog.
- Mae gennym amrywiaeth o ddulliau recriwtio, gan gynnwys drwy Fenter Bro Ogwr a thrwy ymgysylltu ag ysgolion Cymraeg i hyrwyddo prentisiaethau.

**<u>Datblygiadau o ran y cyhoedd</u>**

**Codi proffil y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithgareddau a digwyddiadau lleol Cymraeg a drefnir gan y Cyngor a'n partneriaid mewn modd strwythuredig**

Ceir calendr treigl o weithgareddau a digwyddiadau Cymraeg a rhennir y manylion ar draws sianelau cyfathrebu mewnol ac allanol, fel y wasg, y cyfryngau cymdeithasol a Bridgenders. Dyma rai o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a gafodd eu hyrwyddo dros y cyfnod:

- Diwrnod Shwmae Sumae
- Darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Calon y Cymoedd
- Gwledd Nadolig Cymru
- Cynllun chwarae Cymraeg Menter Bro Ogwr

**Cynyddu'r graddau y mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei hyrwyddo, a'r ymwybyddiaeth ohono.**

- Rydym wedi amlygu cynnydd o ran canlyniad un y Cynllun, lle gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Yng nghanlyniad dau'r Cynllun, gallwn weld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs llawn Cymraeg ail iaith (TGAU), ers cael gwared â'r cwrs byr Cymraeg iaith.

- Yng nghanlyniad pedwar y Cynllun gallwn weld bod disgyblion sy'n cwblhau Safon Uwch Cymraeg Iaith gyntaf wedi parhau'n weddol sefydlog.
- Rydym wedi gwneud cynnydd o ran datblygu llyfryn i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, a byddwn yn rhoi'r llyfryn hwnnw i rieni ar enedigaeth eu plentyn, ac wrth ymweld â'r cartref pan fo'r plentyn yn 18 mis oed.

**Lle bo modd, archwilio a gweithredu unrhyw weithgareddau newydd a fydd yn cefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg o fewn y fwrdeistref sirol**

- Ers yr adroddiad diwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth a chefnogi gweithgareddau ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys gwaith â Menter Bro Ogwr, yn cefnogi 80 o blant mewn cynlluniau chwarae.
- Mewn partneriaeth â'r Urdd rydym wedi darparu cyfleoedd yn YGG Llangynwydd Maesteg a Bracla.
- Rydym wedi datblygu rhwydwaith merched ym Mracla, ac wedi cynorthwyo 594 o bobl ifanc i fynychu clybiau wythnosol. Mae 389 o bobl ifanc wedi manteisio ar ddarpariaeth yn ystod y gwyliau a 103 o unigolion wedi manteisio ar weithgareddau i'r teulu, a thros 2500 wedi manteisio ar ddarpariaeth chwaraeon yr Urdd.

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb lyfryn i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth er mwyn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog y cyhoedd i ddefnyddio'r iaith. Roedd yr Aelodau wrth eu bodd â'r llyfryn ac yn cymeradwyo gwaith y tîm fu'n ei greu.

Diolchodd yr Aelodau i'r Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb am y llyfryn. Dywedodd Aelod ei fod yn rhoi portread deniadol o'r Gymraeg ac yn creu argraff gadarnhaol. Ailbwysleisiodd Aelod arall hynny, ac roedd yn falch fod y llyfryn yn cael ei gynnig i rieni newydd ar enedigaeth eu plentyn fel bo modd dysgu'r iaith o oedran ifanc, a hefyd i fyfyrwyr Safon Uwch.

Diolchodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i'r Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb am yr adroddiad, ac roedd yn hapus i dderbyn yr adroddiad yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn gallu cadw golwg ar gynnydd yn rheolaidd, heb golli unrhyw ddatblygiadau allweddol.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn nodi'r adroddiad.

64. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WAITH FFORWM CYDLYNIANT CYMUNEDOL A CHYDRADDOLDEB PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet am waith Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr.

Esboniodd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng Heddlu De Cymru a CBSPO yn 2017 ynghylch bwriad i gyfuno Fforwm Cydraddoldeb a Grŵp Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr ar 27 Ebrill 2018. Dywedodd fod y grŵp wedi cyfarfod bob chwarter ers y cyfarfod cyntaf. Dywedodd mai dyma oedd yr ail waith i adroddiad ar gynnydd y Fforwm gael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fanylion am y testunau a drafodwyd yn y Fforwm, gan gynnwys cyflwyniadau ar y canlynol:

- Hyrwyddo prentisiaethau ymhlith grwpiau wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ag anghenion dysgu ychwanegol, sicrhau bod mwy o ferched yn astudio pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

- Tensiynau cymunedol wrth ymadael â'r UE
- Y newyddion diweddaraf am drafnidiaeth a thacsis hygyrch
- Y diweddaraf am y "sgoriau ar y drysau" ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n annog busnesau lleol i ddangos a oes ganddynt gyfleusterau i bobl anabl ar eu heiddo.
- Ymgynghoriad ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg
- Ymgynghoriad ar Gyllideb CBSPO 2019

Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb hefyd fod Heddlu De Cymru hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf ym mhob cyfarfod o'r Fforwm. Roedd hynny'n cynnwys gwybodaeth am nifer o feysydd allweddol, fel troseddau casineb, defnyddio grym, tensiynau yn y gymuned, trais yn erbyn menywod a merched, a chwynion a wnaed yn erbyn yr heddlu.

Ychwanegodd fod y grŵp yn weithredol yn annog aelodau newydd i ymuno, a'i fod wedi llwyddo i wneud hynny, gyda nifer o aelodau newydd o'r sefydliadau a ganlyn:

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau Cwm Taf;
- Swyddfa Cyngor ar Bopeth;
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth;
- Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot

Gofynnodd Aelod pwy oedd holl aelodau'r grŵp.

Esboniodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod y Fforwm yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Mental Health Matters Wales, Vine Christian Center, Eglwys y Santes Fair, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a Chanolfan Loches Cymru.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet wedi ystyried a derbyn yr adroddiad.

65. EITEMAU BRYS

Dim